

Crynodeb Gwirio Ansawdd Canolfan Adferiad Gellinudd Dyddiad y gweithgarwch: 11 Awst 2020

Dyddiad cyhoeddi: 14 Medi 2020



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: agic@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ganolfan Adferiad Gellinudd fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn ffurfio rhan o ddull gweithredu haenog o ran sicrwydd ac mae'n un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Deddf Safonau Gofal 2000, Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a rheoliadau perthnasol eraill. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Canolbwyntiodd y gwiriad ansawdd hwn ar bedwar maes allweddol: trefniadau COVID-19; yr amgylchedd; atal a rheoli heintiau; a llywodraethu. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â Rheolwr y Ganolfan Adferiad ac Ymgynghorydd Datblygu'r Ganolfan Adferiad ar 11 Awst 2020 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas ar gyfer anghenion y cleifion ar yr adeg hon? Pa newidiadau, os o gwbl, a wnaed i'r amgylchedd ffisegol, trefniadau ar y ward a gallu'r cleifion i fanteisio ar gyfnodau o absenoldeb o ganlyniad i COVID-19?
- Sut mae'r risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- O ystyried effaith COVID-19, sut rydych yn cyflawni eich dyletswydd gofal mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a sut mae hawliau'r cleifion yn cael eu diogelu?
- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ehangach pan fydd angen?

Trefniadau COVID-19

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19; pa newidiadau mae wedi'u gwneud i sicrhau y gall barhau i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Gwnaethom adolygu

polisiau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE).

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwnaethom edrych ar ddogfennau a oedd yn dangos bod y gwasanaeth wedi cynnal yr asesiadau risg angenrheidiol a bod polisiau a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau bod gan y staff ganllawiau cyfredol mewn perthynas â threfniadau COVID-19. Dywedwyd wrthym fod y darparwr cofrestredig wedi cyflogi aelod o staff i gydlynu ei ymateb i COVID-19 yn seiliedig ar ddeddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau. Dywedwyd wrthym hefyd y ceisir cyngor cyfreithiol lle y bo angen.

Dywedwyd wrthym fod mwy o lanhau yn digwydd yn y ganolfan. Mae'r staff hefyd yn defnyddio mwy o PPE llawn, sydd ar gael i'r staff a'r cleifion ei ddefnyddio y tu allan i'r ganolfan. Mae prosesau ar waith i sicrhau bod cyflenwadau digonol o PPE ar gael.

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau rheoli heintiau yn cael eu cynnal ac roedd y camau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon yn cael eu cofnodi hefyd. Dywedwyd wrthym fod y cleifion ac ymwelwyr â'r ysbyty yn cael eu cefnogi a'u hannog i gadw pellter cymdeithasol yn y ganolfan. Dywedwyd wrthym hefyd fod newidiadau wedi cael eu gwneud o ran paratoi prydau a threfniadau bwyta er mwyn cefnogi mesurau cadw pellter cymdeithasol. Mae hylif diheintio dwylo a weips ar gael ym mhob rhan o'r ganolfan.

Yn sgil ein trafodaethau, gwnaethom gadarnhau bod y cleifion wedi bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am COVID-19 yn rheolaidd drwy sgysiau dyddiol â'r staff, cyfarfodydd wythnosol ac yn ystod cyfarfodydd tîm aml-ddisgyblaethol. Mae proses gyfathrebu reolaidd wedi sicrhau bod y staff a'r cleifion yn cael cyngor a chanllawiau cyfredol.

Dywedwyd wrthym fod y cyfyngiadau a roddwyd ar waith wedi cael effaith andwyol ar y cleifion a'u hiechyd meddwl a bu cynnydd amlwg yn symptomau seiciatrig rhai o'r cleifion. Dywedwyd wrthym fod effaith y newidiadau ar y cleifion yn destun gwaith asesu risg a monitro parhaus a bod ymdrechion yn cael eu gwneud i gynnal cydberthnasau cadarnhaol rhwng y staff a'r cleifion.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau a'r defnydd o ddulliau atal yn gorfforol ac arwahanu. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn y gofal a'r driniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth wedi gwneud newidiadau i'r amgylchedd o ganlyniad i COVID-19. Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau i helpu gyda mesurau cadw pellter cymdeithasol ym mhob rhan o'r ganolfan. Mae'r cyfarfodydd sy'n cael eu cynnal yn y gwasanaeth wedi cael eu symud i'r ystafell weithgareddau er mwyn sicrhau y gellir cadw pellter cymdeithasol.

Dywedwyd wrthym fod ardal ynysu ddynodedig wedi cael ei nodi ar gyfer cleifion y mae angen iddynt hunanynysu. Hefyd dywedwyd wrthym fod mesurau priodol ar waith ar gyfer unrhyw glaf sydd yn y categori gwarchod.

Eglurwyd inni fod ystafell staff, y tu allan i'r brif ganolfan, yn darparu cyfleusterau i'r staff gael cawod a newid ar ddechrau a diwedd eu sifft. Mae cyfleusterau golchi dillad ar gael hefyd er mwyn i'r staff olchi eu dillad gwaith yn hytrach na mynd â nhw adref.

Dywedwyd wrthym fod gardd ar gael i'r cleifion er eu hiechyd a'u llesiant ac mae gweithgareddau ychwanegol wedi cael eu cyflwyno er mwyn helpu i gadw'r cleifion yn brysur.

Eglurwyd inni fod y cleifion wedi cael eu cefnogi i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau drwy alwadau ffôn a llechi a dyfeisiau electronig eraill.

O ganlyniad i'r cyfyngiadau symud, dywedwyd wrthym y cyfyngwyd ar drefniadau rhyddhau cleifion dros dro ar y dechrau; fodd bynnag, mae tair ardal gardd ar gael ar dir y ganolfan y gallai'r cleifion eu defnyddio i gael amser i ffwrdd o'r ward. Wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio, dywedwyd wrthym fod ymweliadau gan deuluoedd yn cael eu cynnal yn yr ardaloedd gardd ac, ar y dechrau, roedd y cleifion a oedd yn cael eu rhyddhau dros dro yn cael eu hebrwng er mwyn eu haddysgu, ac er mwyn rhoi cymorth ac arweiniad iddynt.

Dywedwyd wrthym, wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio ymhellach, fod y cleifion yn cael eu rhyddhau dros dro heb eu hebrwng er mwyn ymweld â'u teuluoedd gartref, yn unol â'r canllawiau aelwyd estynedig. Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth wedi ceisio cyngor cyfreithiol er mwyn sicrhau nad oedd y cleifion yn profi cyfyngiadau nad oeddent yn gymwys i gymdeithas yn ehangach. Dywedwyd wrthym fod dull priodol o ryddhau cleifion dros dro wedi cael ei roi ar waith a bod asesiad risg yn cael ei gynnal ar sail cleifion unigol. Lle nad oedd cleifion wedi dilyn y rheolau, dywedwyd wrthym fod yn rhaid iddynt hunanynysu ar ôl dychwelyd i'r gwasanaeth nes eu bod yn gallu cael prawf COVID-19.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r

risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisiâu rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth o bolisi rheoli heintiau a pholisiâu a gweithdrefnau ategol eraill ar gyfer atal a rheoli heintiau a oedd yn cynnwys rheoli COVID-19.

Gwelsom dystiolaeth hefyd fod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn asesu a rheoli'r risg o haint. Cynhaliwyd yr archwiliad mwyaf diweddar ar 23 Gorffennaf 2020.

Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant ar-lein ar reoli heintiau a COVID-19 wedi cael ei ddarparu i'r staff.

Yn ogystal, dywedwyd wrthym fod systemau a gweithdrefnau ar waith i nodi unrhyw staff neu gleifion a allai fod mewn perygl o ddatblygu, neu ddangos, neu sydd eisoes yn dangos symptomau COVID-19. Mae hyn yn cynnwys cymryd tymheredd pob aelod o'r staff a'r cleifion yn ddyddiol a gofyn i'r staff gadarnhau a chofnodi nad oes ganddynt unrhyw symptomau COVID-19 cyn dechrau eu sifft. Mae'r staff hefyd wedi cael eu haddysgu i gadw llygad am arwyddion a symptomau COVID-19 mewn cleifion.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC y ffordd y mae'r lleoliad yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ehangach pan fydd angen.

Hefyd, holwyd y lleoliad am y ffordd y mae, yn sgil effaith COVID-19, yn parhau i gyflawni ei ddyletswydd gofal o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac o ran diogelu hawliau'r cleifion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Wrth drafod â'r rheolwr gwnaethom ganfod bod y ganolfan wedi cwblhau ymgyrch recriwtio cyn mis Mawrth eleni a'i bod mewn sefyllfa gadarnhaol o ran lefelau staffio. Dywedwyd wrthym y defnyddir staff banc pan fo angen ac mai anaml y mae angen i'r gwasanaeth ddibynnu ar staff asiantaeth. Ategwyd hyn gan archwiliad o swyddi gwag a data ar absenoldebau staff. Caiff rotâu eu drafftio ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod lefelau priodol o staff medrus ar ddyletswydd a bod niferoedd staffio yn briodol ar gyfer nifer y cleifion. Caiff lefelau dibyniaeth y cleifion eu hasesu'n rheolaidd ac mae staff ychwanegol yn cael eu defnyddio os oes mwy o alw.

Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant Strategaethau ac Ymyriadau wrth Reoli Ymddygiad Ymosodol (SIMA) wedi cael ei ohirio ers y cyfyngiadau symud yn unol â chanllawiau'r llywodraeth oherwydd bod angen i'r staff ryngweithio'n agos at ei gilydd yn ystod yr

hyfforddiant. Mae hyn yn cael ei adolygu'n barhaus a chyn gynted ag y bydd canllawiau yn caniatáu hynny, bydd yr hyfforddiant yn aildechrau.

Dywedwyd wrthym fod cymorth ar gael i'r staff drwy sesiynau goruchwyllo a sesiynau grŵp myfyriol a oedd yn cael eu hwyluso gan seicotherapydd y gwasanaeth. Roedd cymorth ychwanegol ar gael hefyd, ar sail 1-2-1 yn rhithwir ac wyneb yn wyneb, gan y seicotherapydd a staff cymwysedig eraill. Dywedwyd wrthym fod uwch-reolwyr wedi bod yn gefnogol ac yn weladwy drwy gydol y pandemig.

Yn dilyn trafodaethau, cawsom wybod bod y cleifion wedi parhau i gael mynediad i weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ehangach, gan gynnwys gwasanaethau eirioli, drwy gyfarfodydd rhithwir ar y dechrau. Fodd bynnag, wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio mae mwy o gyfarfodydd wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Yn dilyn trafodaeth â Rheolwr y Ganolfan Adferiad ac o edrych ar ddata ar gyfer hyfforddiant gorfodol, nodwyd gennym fod angen gwella cydymffurfiaeth mewn rhai meysydd. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant tân a oedd ar 57.69% a hyfforddiant diffibriliwr allanol awtomataidd (AED) a oedd ar 53.84%. Rydym yn argymhell adolygiad o'r holl ffigurau cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol ac y dylid cymryd camau gweithredu er mwyn sicrhau cyfraddau cydymffurfio uchel ym mhob maes.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriadau, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain isod:

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC

Cynllun gwella

Lleoliad: Ysbyty Iechyd Meddwl Annibynnol

Gwasanaeth: Canolfan Adferiad Gellinudd

Dyddiad y gweithgarwch: 11 Awst 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau cyfraddau cydymffurfio uchel ar gyfer yr holl hyfforddiant gorfodol i'r staff.	7.1 Y Gweithlu	Mae hyfforddiant tân ar gael ar-lein fel mesur dros dro nes y gellir ailddechrau hyfforddiant wyneb yn wyneb. Mae'r adran Adnoddau Dynol wedi e-bostio dolenni i'r holl staff. Edrychir am hyfforddiant CPR. Mae Rheolwr y Ganolfan Adferiad mewn cysylltiad â heartstart a darparwyr eraill. Hyfforddiant diogelu - dyddiadau ar gael ym mis Medi/Hydref i'r staff gael hyfforddiant.	Rheolwr y Ganolfan Adferiad	Hyfforddiant tân; disgwyl cydymffurfiaeth o 100% pythefnos CPR: Rhagfyr 2020 (yn dibynnu ar COVID-19) Diogelu: Tachwedd 2020

2					
3					
4					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: J.Wheatley

Dyddiad: 07-09-2020